

Grant Cynaliadwyedd Gofal Plant

2016/17

Mae'r Grant Cynaliadwyedd Gofal Plant yn fenter wedi'i ariannu gan Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar Gofal Plant a Chwarae Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent. Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu i wella cynaliadwyedd darparwyr gofal plant, i'w cefnogi i gynyddu niferoedd.

Pwrpas y Grant

Pwrpas y Grant Cynaliadwyedd ydy cefnogi a chynnal darpariaeth gofal plant o ansawdd da, sydd dan fygythiad difrifol o gau. Rhaid i ddarparwyr ddangos bod eu hincwm yn llai na'u gwariant, bod â dim arian wrth gefn sydd ddim ynghlwm â staff ac fe fydd gofyn profi y bydd lefelau mynychu ac incwm yn cynyddu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Pwy sy'n cael gwneud cais?

Unrhyw Feithrinfa Dydd, Gofalwr Plant, Grŵp Cyn-ysgol, Cylch Meithrin neu Glwb y Tu Allan i Oriau Ysgol sydd wedi cofrestru gyda National Day Nurseries Association, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru, Professional Association for Childcare and Early Years neu Clybiau Plant Cymru Kids Club, o fewn Cyngor Bwrdeisdref Blaenau Gwent sy'n darparu gofal plant i blant rhwng 0-12 oed ar hyn o bryd.

Swm y Grant

- £100 i Ofalwyr Plant
- £750 i Ddarpariaethau Grŵp

Gwariant Cymwys (a brynir gyda siec, cerdyn credyd neu BACS)

- Cyflogau
- Rhent
- Gwres a Goleuni
- Costau lechyd a Diogelwch Hanfodol (e.e. Yswiriant)
- Costau adleoli (os nad bai'r Lleoliad)
- Adnoddau (e.e. paent, papur, ayyb.)

Gwariant Anghymwys

- Gwariant a wneir **CYN** dyddiad cynnig y Grant
- TAW / Trethi
- Hysbysebu a deunyddiau marchnata
- Atgyweirio, a chynnal a chadw
- Taliadau aelodaeth
- Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol
- Hurbwrcasu / Llogi ar les
- Pryniant trwy Arian parod neu Gerdyn credyd

Y Broses o wneud Cais

- Rhaid ichi fod wedi'ch cofrestru gyda CSSIW - bydd angen copi o'r dystysgrif
- Ynghyd â'r Ffurflen Gais, mae gofyn cael:
 1. 3 mis o gyfriflenni banc busnes (Rhaid i bob lleoliad fod â chyfrif banc ar wahân yn enw'r busnes/lleoliad, mae 3 mis o gyfriflenni banc personol yn dderbyniol gan ofalwyr plant).
 2. Dangos sut bydd y Lleoliad yn dod yn gynaliadwy gyda chwistrelliad y Grant Cynaliadwyedd a sut fydd y busnes yn parhau i redeg ar lefel gynaliadwy yn y dyfodol.
 3. Ymrwymiad i ymgymryd â Chynllun Gwella Ansawdd Blaenau Gwent gan ddefnyddio'r Graddfeydd Graddio Amgylcheddol sy'n briodol i'r lleoliad, neu eisoes wedi ymgymryd â'r cynllun.

Sut i wneud cais?

D.S. Ni roddir ystyriaeth i geisiadau hwyr

Cwblhewch y ffurflen sydd wedi'i atodi a'i dychwelyd at y Tîm Blynyddoedd Cynnar Gofal Plant a Chwarae gan amgáu'r holl dystiolaeth i gefnogi. Rhaid teipio neu brintio'r holl ffurflenni mewn inc **DU**. Os oes angen cymorth arnoch i gwblhau eich ffurflen gais neu'n dymuno gwybodaeth bellach, cysylltwch â Kara Kershaw ar 01495 354772

Gellir dychwelyd ceisiadau ar unrhyw adeg hyd at Ionawr 31^{ain}, 2017 fan bellaf a dylid eu dychwelyd at: Kara Kershaw, Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant, Tîm Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Tîm Gwasanaethau Integredig, Canolfan Integredig Calon y Cymoedd, Stryd Fawr, Blaenau NP13 3BN

Beth sy'n digwydd nesaf...

Bydd y Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar Gofal Plant a Chwarae yn ystyried pob cais a dderbynnir erbyn Ionawr 31^{ain}, 2017. Anfonir llythyr atoch yn cydnabod derbyn eich cais o fewn diwrnod gwaith o'i dderbyn. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, fe fyddwch yn derbyn llythyr o gymeradwyaeth ac fe wneir taliad trwy drosglwyddiad banc erbyn Mawrth 31^{ain}, 2017.

Gwerthusiad

Fe fydd gofyn ichi hefyd gwblhau a dychwelyd erbyn Medi 29^{ain}, 2017:

- Ffurflen hunanasesu yn amlinellu sut bu i'r grant helpu tuag at eich darpariaeth.